

Hawdd ei Ddeall



Gwybod Eich Hawliau

Eich canllaw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl



Ysgrifennwyd y ddogfen hon gan **Anabledd Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Gwybod eich hawliau Defnyddio eich hawliau Byw eich hawliau**'.

Mawrth 2022

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y byddwch chi dal angen cymorth i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.



Gallai geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** fod yn anodd eu deall. Gallwch chi wirio beth mae'r holl eiriau mewn glas yn eu golygu ar **dudalen 19**.



Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn golygu Anabledd Cymru. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Gwefan: www.disabilitywales.org/cy

E-bost: info@disabilitywales.org

Ffôn: 02920 887 325



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthon ni beth yw eich barn am y ddogfen hawdd ei deall hon, [cliciwch yma](#).

Cynnwys

Tudalen

Cyflwyniad.....	4
Ynglŷn â'n gwaith.....	5
Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl.....	7
Gwybod eich hawliau.....	9
Defnyddio eich hawliau.....	13
Gwneud cwyn.....	13
Mynd i'r Llys.....	15
Stori Bywyd Go Iawn.....	16
Rhagor o Wybodaeth.....	18
Geiriau anodd.....	19

Cyflwyniad



Ysgrifennwyd y llyfryn hwn gan **Anabledd Cymru**.



Mae'r llyfryn hwn ar gyfer Pobl Anabl a Sefydliadau Pobl Anabl.



Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth am **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl**. Ond nid cyngor cyfreithiol e.



Mae cyfanswm o 8 llyfryn. Mae gan bob llyfryn wybodaeth am gyfraith wahanol.



Roedd y llyfryn hwn yn gywir ym mis Ionawr 2021. Ond gallai **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl** newid yn y dyfodol.

Ynglŷn â'n gwaith



Rydym yn gweithio'n galed i ddiogelu **hawliau** Pobl Anabl.



Hawliau yw'r pethau y caniateir i chi eu gwneud. Er enghraifft, mae gennych chi'r hawl i briodi a'r hawl i bleidleisio.

Mae **hawliau** yn dweud wrthon ni sut y dylen ni gael ein trin. Er enghraifft, mae gennych chi'r hawl i gael eich trin â pharch.


Mae gan bobl eraill **hawliau** hefyd. Er enghraifft, rhaid i chi drin pobl eraill â pharch.



Yn 2020, gofynnwyd i Bobl Anabl yng Nghymru am eu **hawliau**.



Dywedodd llawer o Bobl Anabl wrthon ni nad oedd eu **hawliau** yn cael eu diogelu'n dda yng Nghymru.



Roedd llawer o Bobl Anabl yn teimlo na fyddai hyn yn gwella yn y dyfodol.



Rydyn ni am i Bobl Anabl wybod a defnyddio eu **hawliau**. Ac i deimlo'n ddiogel.



Fe wnaethon ni ysgrifennu'r 8 llyfryn hyn i helpu.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl



Byddwn ni'n galw **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl** yn **Y Confensiwn** yn fyr.



Mae gan **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl** reolau mae llawer o wledydd yn eu dilyn. Gan gynnwys y DU.



Mae **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl** yn diogelu **hawliau** pobl anabl.



Mae **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl** yn defnyddio'r **Model Cymdeithasol o Anabledd**. Mae hyn yn golygu bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar **Hawliau** Pobl Anabl am newid cymdeithas. Gwneud bywyd yn well i Bobl Anabl.



Mae **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl** yn dda am ei fod yn esbonio hawliau Pobl Anabl yn glir.



Ac yn dweud wrth Bobl Anabl sut i ddiogelu eu **hawliau**.

Gwybod eich hawliau

Mae **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl** yn dweud bod gan bobl anabl yr **hawliau** canlynol:

Cydraddoldeb



- i **gydraddoldeb**

Mae **cydraddoldeb** yn golygu trin pobl yn deg.



- i fywyd, rhyddid a diogelwch



- i'w trin yn deg



- i fyw'n **annibynnol**

Mae **annibynnol** yn golygu gwneud pethau drosoch eich hun a gwneud eich penderfyniadau eich hun.



- bod yn ddiogel rhag **camdriniaeth**

Cam-drin yw pan fydd rhywun yn eich brifo neu'n eich trin yn wael.



- i gael eich amddiffyn rhag trais



- i deithio a phenderfynu ble i fyw



- i siarad allan



- i breifatrwydd



- i fywyd cartref a theuluol



- i **gydraddoldeb** addysg



- i gael mynediad **cyfartal** i wasanaethau iechyd



- I weithio. Ac i gael y cymorth sydd ei angen i weithio



- I gael safon byw dda



- i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth, cymuned a bywyd cyhoeddus



- i fywyd cymdeithasol. A chyfleusterau hamdden.

Mae gan **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl** hefyd rai **hawliau** ychwanegol nad ydyn nhw yng nghyfraith y DU. Er enghraifft:



- **hawliau** menywod anabl



- **hawliau** plant anabl.

Defnyddiwch eich hawliau

Gwneud cwyn

Gallwch chi ddefnyddio **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl** i gwyno:

- ynghylch **gwahaniaethu** gan y Llywodraeth. Neu gan **gyrff cyhoeddus**.



Mae **gyrff cyhoeddus** yn wasanaethau sy'n cael eu rhedeg i'r cyhoedd. Er enghraifft, y GIG, awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, neu'r gwasanaeth tân.



- am broblemau gyda gwasanaethau i Bobl Anabl.



- am **wahaniaethu** yn eich ardal leol.

Gwahaniaethu yw pan fyddwch chi'n cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.

I gwyno am gorff cyhoeddus, dylech chi:



- weithio allan pa ran o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl i'w defnyddio
- dweud wrth y corff cyhoeddus eu bod nhw'n torri'r rheolau
- os nad ydyn nhw'n gwranddo, gwneud cwyn swyddogol
- os nad yw hynny'n gweithio, cwyno wrth rywun yn eich llywodraeth leol
- os nad oes unrhyw beth rydych chi'n rhoi cynnig arno yn gweithio, gallech chi fynd i'r llys.

Mynd i'r llys



Os ydych chi am fynd i'r llys, ni allwch chi ddefnyddio **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl**. Gan nad yw'n rhan o gyfraith y **DU**.



Ond gallwch chi ddefnyddio'r **Ddeddf Hawliau Dynol neu'r Gyfraith Cydraddoldeb** yn lle hynny.



Yna gallwch chi ddefnyddio **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl** i wneud eich achos yn gryfach.



Gallwch chi gael rhagor o wybodaeth am y **Ddeddf Hawliau Dynol a'r Gyfraith Cydraddoldeb** o'r **Llyfryn Gwybod Eich Hawliau - Mwy o Wybodaeth**.



Gallwch chi gael rhagor o wybodaeth am **Ddeddf Cydraddoldeb 2010** yn **Gwybod eich Hawliau – Eich canllaw i Ddeddf Cydraddoldeb 2010**.

Stori bywyd go iawn



Nid oedd menyw anabl yn gallu gadael ei gwely.



Dyweddodd staff gofal iechyd wrthi hi fod angen gwely gwahanol arni.



Byddai'r gwely gwahanol yn golygu y gallai fod wedi cael baddon yn y gwely.



Gofynnodd i'r cyngor am wely dwbl. Am ei bod hi dal eisiau cysgu wrth ymyl ei gŵr.



Cynigiodd y fenyw dalu'r gost ychwanegol am wely dwbl. Ond dywedodd y cyngor mai dim ond gwely sengl y bydden nhw'n ei gael. Nid gwely dwbl.

Beth ddigwyddodd nesaf



18 mis yn ddiweddarach rhoddodd y **Ganolfan Cyfraith Anabledd** gyngor i'r fenyw.



Fe wnaethon nhw ddweud bod y cyngor yn torri rheolau **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl**.



Mae **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl** yn dweud bod gan bobl anabl yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol.



Dyweddodd y fenyw wrth y cyngor eu bod nhw'n torri rheolau **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl**. Ac y dylen nhw dalu am y gwely dwbl.



Dair awr yn ddiweddarach prynodd y cyngor y gwely dwbl iddi.

Rhagor o Wybodaeth



Rhaid i **lywodraethau** sy'n dilyn **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl** roi diweddariadau rheolaidd. I ddangos eu bod nhw'n dilyn y rheolau. Gallwch chi ddarllen y diweddariadau yma:

www.ohchr.org/EN/HRBodies/CRPD/Pages/SPReports.aspx

Adroddiad y **DU** ar **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl** a sut mae'n cael ei ddefnyddio yn y **DU**:

assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/345120/uk-initial-report.pdf

Gwybodaeth am y **Pwyllgor ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CRDP)**:

www.ohchr.org/EN/HRBodies/CRPD/Pages/QuestionsAnswers.aspx

Gwybodaeth am **Adroddiadau Arbennig y Cenhedloedd Unedig** ar **hawliau** pobl anabl yn y **DU**:

www.ohchr.org/en/issues/disability/srdisabilities/pages/srdisabilitiesindex.aspx

Canllaw y **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** i **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl** a'r hyn mae'n ei olygu i **Bobl Anabl**:

www.equalityhumanrights.com/cy/node/7506

Geiriau anodd

Annibynnol

Mae annibynnol yn golygu gwneud pethau drosoch eich hun a gwneud eich penderfyniadau eich hun.

Cam-drin

Cam-drin yw pan fydd rhywun yn eich brifo neu'n eich trin yn wael.

Cydraddoldeb

Mae cydraddoldeb yn golygu trin pobl yn deg.

Cyrff cyhoeddus

Mae cyrff cyhoeddus yn wasanaethau sy'n cael eu rhedeg i'r cyhoedd. Er enghraifft, y GIG, awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, neu'r gwasanaeth tân.

Gwahaniaethu

Gwahaniaethu yw pan fyddwch chi'n cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.

Hawliau

Hawliau yw'r pethau y caniateir i chi eu gwneud. Er enghraifft, mae gennych chi'r hawl i briodi a'r hawl i bleidleisio.

Mae hawliau'n dweud wrthon ni sut y dylen ni gael ein trin. Er enghraifft, mae gennych chi'r hawl i gael eich trin â pharch.

Mae gan bobl eraill hawliau hefyd. Er enghraifft, rhaid i chi drin pobl eraill â pharch.

